Planning Aid **Wales**
Cymorth Cynllunio **Cymru**

# Adroddiad Blynyddol
# 2018/19

Rydym yn cefnogi ymgysylltiad cymunedol mewn cynllunio yng Nghymru

www.planningaidwales.org.uk

**Rhif elusen 1000115**
**Cwmni yn gyfyngedig gan Warant 2526875 (Cymru)**

Planning Aid **Wales**
Cymorth Cynllunio **Cymru**

# Ynghylch Cymorth Cynllunio Cymru

Mae  Cymorth Cynllunio Cymru yn hyrwyddo a hwyluso ymgysylltiad cymunedol ystyrlon yn y broses cynllunio yng Nghymru.

Gall ymgysylltiad cymunedol ystyrlon:

- Roi llais i bobl a chynyddu eu sgiliau, hyder a'u gallu er mwyn dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol.
- Gwella ansawdd, priodolrwydd a pherthnasedd datblygiadau newydd.
- Cynyddu balchder, a synnwyr o berchnogaeth yn yr amgylchedd adeiledig.
- Maethu cydweithredu rhwng datblygwyr, cynllunwyr a chymunedau gyda'r canlyniad y ceir cynlluniau gwell.
- Gwella ansawdd a pherthnasedd polisi cynllunio trwy ystyried gwybodaeth leol.
- Lleihau gwrthdaro, cyflymu a lleihau costau y broses rheolaeth datblygu.

**Fel y sefydliad ymgysylltiad cymunedol mewn cynllunio, ein rôl yw adeiladu dealltwriaeth o'r system gynllunio, cefnogi gwell ymgysylltiad â chynllunio lleol ac annog cydweithredu rhwng cymunedau, awdurdodau cynllunio a datblygwyr.**

Trwy roi llais i bobl yn y system gynllunio, rydym yn helpu creu Cymru sy'n fwy cyfartal gyda chymunedau mwy cydlynol.

Ceir mwy o wybodaeth am ein strategaeth yn ein Cynllun Busnes cyfredol 2017-2020:

www.planningaidwales.org.uk/about-us-2/key-documents-and-policies/business-plans/?lang=cy

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn elusen gofrestredig ac yn gwmni wedi ei gyfyngu gan warant.  Cawn ein cyllid sylfaenol gan Lywodraeth Cymru ond cadwn ganran uchel  o ryddid i weithredu'n annibynnol ar ran cymunedau.

Rhif elusen 1000115.  Cwmni yn cyfyngedig gan warant 2526875 (Cymru)

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

# Ein gwasanaethau

Mae ein gwasanaethau, sydd â chyllid craidd, yn cynnwys dosbarthu hyfforddiant ar gynllunio i ystod o gynulleidfaoedd, datblygu canllawiau sy'n hawdd eu darllen a llinell gymorth sy'n rhoi cyngor cynllunio am ddim. Rydym hefyd yn ymgymryd â phrosiectau a chomisiynau ar ran Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Cynllunio Lleol a Chynghorau Cymuned a Thref.

## Hyfforddiant

Gall Cymorth Cynllunio Cymru gynnal cyrsiau hyfforddiant ymgysylltiol a llawn gwybodaeth ar gyfer aelodau etholedig, cynghorau cymuned a thref, grwpiau cymunedol a sefydliadau ledled Cymru. Mae'r pynciau'n cynnwys *Cyflwyniad i Gynllunio, Ymateb i Geisiadau Cynllunio a Gwneud y Mwyaf o'ch Dylanwad* ac *Cyflwyniad i Gynlluniau Cynefin*.

## Gwasanaethau Ymgysylltiad Cymunedol

Fel sefydliad trydydd parti, rydym wedi darganfod, dro ar ôl tro, bod cymunedau'n fodlon ymgysylltu â ni, hyd yn oed pan fo Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi dod ar draws rhwystrau i ymgysylltiad yn y gorffennol. Fel rhan o'n proses, rydym yn annog cydweithrediad gweithredol rhwng staff awdurdodau cynllunio lleol a grwpiau cymunedol, a thrwy hyn adeiladu gwell berthynas ar gyfer ymgysylltiad yn y dyfodol.

Mae'n gwasanaethau ymgysylltiad cymunedol yn cynnwys datblygu strategaeth ymgysylltiad cymunedol, gweithdai hyfforddiant ar adeiladu gallu a chonsensws, gweithdai ymgysylltu â grwpiau nas clywir ac ymgysylltu ag ieuenctid ac cefnogaeth Cynlluniau Cynefin, yn cynnwys hyfforddiant ar a datblygu Cynllun Cynefin.

## Datblygu Canllawiau

Mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi datblygu nifer o ddogfennau canllaw ar gynllunio sy'n hawdd eu darllen ar ran Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Cynllunio Lleol. Mae enghreifftiau'n cynnwys *placeplans.org.uk* ac *CDLl Sir Y Fflint: Canllaw Opsiynau Strategol hawdd ei ddarllen*.

## Derbyniodd 282 o unigolion dan hyfforddiant:

fwy na 2.5 awr o hyfforddiant cynllunio manwl yn ein digwyddiadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mynychodd:

**89** cynghorydd cymuned ein rhaglen flynyddol o 8 cwrs cynllunio ar draws Cymru

**122** cynghorydd cymuned a chynllunwyr ein rhaglen flynyddol o 4 digwyddiad rhwydweithio

**71** cynghorydd cymuned 4 cwrs ychwanegol ar bolisi cynllunio a rheoli datblygu, oedd wedi eu hariannu gan Lywodraeth Cymru

**Rydym wedi cynorthwyo**

**5,672**

## Cafodd 4,741 unigolyn afael ar:

ein canllawiau hawdd eu darllen a'r newyddion diweddaraf am gynllunio:

**3,356** defnyddiodd 3,356 o ymwelwyr unigol ein tudalennau gwybodaeth am gynllunio ar ein gwefan

**631** defnyddiodd 631 o ymwelwyr unigol ein cyngor ar ein gwefan Cynlluniau Cynefin

**754** derbyniodd 754 o'n tanysgrifwyr 5 o'n cylchlythyron yn ystod y flwyddyn

## Derbyniodd 428 unigolyn:

hyfforddiant a chefnogaeth ymgysylltu â chomisiynau prosiect:

**143** mynychodd 143 unigolyn 5 digwyddiad ymgysylltu â Chynlluniau Cynefin a gomisiynwyd gan Gyngor Tref y Drenewydd

**112** cymerodd 112 unigolyn ran mewn gweithdai ymgysylltu â Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) a gweithdai hyfforddiant a gomisiynwyd gan 3 awdurdod cynllunio lleol

**60** cymerodd 60 cynrychiolydd o ystod amrywiol o grwpiau ffydd ran mewn deialog ar ffydd a chynllunio a draddodwyd mewn partneriaetrh â Phrifysgol Caerdydd ac RTPI Cymru.

**47** cymerodd 47 cynghorydd cymuned ran mewn 5 gweithdy a gomisiynwyd gan Bwyllgor Cyswllt Gogledd Sir Fynwy

**35** cyfranogodd 35 unigolyn mewn paratoi canllawiau i Sipsiwn a Theithwyr a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

**31** mynychodd 31 cynghorydd cymuned 2 ddigwyddiad hyfforddi pwrpasol a gomisiynwyd gan gynghorau cymuned

# o bobl

i ymgysylltu â materion cynllunio yng Nghymru yn ystod 2018/19.

## Derbyniodd 221 o ymholwyr i'n Llinell Gymorth:

gyngor un wrth un ar y ffôn neu ebost gan ein staff a'n gwirfoddolwyr:

**87** derbyniodd 87 hyd at un awr o gyngor ar y ffôn

**17** derbyniodd 17 unigolyn, a grwpiau cymwys, gyngor a chefnogaeth parhaus

**58** darparwyd 58 awr o gyngor ar y ffôn gan ein gwirfoddolwyr

Planning Aid **Wales**
Cymorth Cynllunio **Cymru**

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

# Rhai uchafbwyntiau o'r flwyddyn a aeth heibio

## 40 mlynedd o Gymorth Cynllunio Cymru

Roedd Cymorth Cynllunio Cymru yn dathlu 40 mlynedd ers ei sefydlu ym mis Tachwedd. Fe'i sefydlwyd yn Nhachwedd 1978 gan grŵp o wirfoddolwyr ymroddedig a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol, darparodd dros gant o wirfoddolwyr Gwasanaeth Cymorth Cynllunio De Cymru gyngor ar y ffôn i filoedd o bobl, oedd yn poeni am faterion cynllunio, yn ystod y degawd cyntaf.

Dros y blynyddoedd mae'r sefydliad wedi ehangu ei wasanaethau gan ddarparu canllawiau hawdd eu darllen ar y broses gynllunio, cynnal cyrsiau hyfforddi i grwpiau cymunedol a Chynghorau Cymuned a Thref yn ogystal â rhoi cyngor arbenigol ar ymgysylltiad cynllunio i awdurdodau cynllunio lleol.

Cynhelir dathliad i nodi'r 40 mlynedd yn y Senedd yn 2019.

## Cynllun Cynefin Y Drenewydd

Yn dilyn llwyddiant ein canllawiau ar Gynlluniau Cynefin (gweler placeplans.org.uk)

dechreuodd Cymorth Cynllunio Cymru (CCC) gefnogi Cyngor Tref Y Drenewydd i ddatblygu ei Gynllun Cynefin cyntaf yn Nhachwedd 2018.
Trwy weithio mewn partneriaeth â Place Studio, hwylusodd Cymorth Cynllunio Cymru gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu i randdalwyr a'r gymuned er mwyn nodi anghenion a darparu llwyfan i gasglu tystiolaeth. Yn ystod y flwyddyn, llwyddwyd i ymgysylltu â 143 unigolyn ar draws cyfres o 5 digwyddiad ymgysylltu. Bydd gwaith yn parhau ar y Cynllun Cynefin trwy gydol 2019.

I gael mwy o wybodaeth am ein gwasanaethau cefnogi Cynlluniau Cynefin ewch i: www.planningaidwales.org.uk/our-services-2/place-plan-support/

## Ffermio a'r system gynllunio

Fel rhan o'n cyllid sylfaenol, mae Cymorth Cynllunio Cymru yn cynnal pedwar digwyddiad 'rhwydweithio' bob blwyddyn – mae'r rhain yn gynadleddau bach sy'n dod â chynrychiolwyr awdurdodau cynllunio lleol, cynghorwyr cymuned a thref a datblygwyr at ei gilydd i rwydweithio a thrafod materion cynllunio cyfredol. Roedd y pynciau eleni yn cynnwys dau ddigwyddiad ar Adran 106, digwyddiad ar Gynlluniau Cynefin a digwyddiad ar Ffermio a'r System Gynllunio a gynhaliwyd yn Llanymddyfri ar 12 Chwefror 2019.

Yn y digwyddiad ffermio cafwyd cyfraniadau gan ddau sefydliad ffermio a chefn gwlad cenedlaethol, yr NFU a CLA, a nododd y newidiadau a'r materion sy'n wynebu amaethyddiaeth a sut mae'r system gynllunio yn effeithio ar hyn. Roedd cyfraniadau eraill yn cynnwys sut y gweithredir y system gynllunio bresennol, a gyflwynwyd gan ymgynghorydd cynllunio ac awdurdod cynllunio lleol. Ar ddiwedd y digwyddiad cafwyd cyflwyniad gan sefydliad y Ffermydd a'r Gerddi Bychain a esboniodd anghenion a materion /pryderon mentrau bychain. Cafodd y digwyddiad dderbyniad da gyda 40 yn mynychu yn cynnwys y 5 siaradwr, 32 cynadleddwr a 3 chynrychiolydd CCC.

## Deialog Ffydd a Chynllunio

Cymerodd 60 cynrychiolydd o ystod amrywiol o grwpiau ffydd ran mewn tri digwyddiad 'Deialog Ffydd a Chynllunio' fel rhan o broseict a arweiniwyd gan Brifysgol Caerdydd ac a gefnogwyd gan RTPI Cymru a Cymorth Cynllunio Cymru.

Archwiliodd y digwyddiadau sut gall cynllunwyr a grwpiau ffydd ymgysylltu â'i gilydd i sicrhau y cyflawnir anghenion grwpiau ffydd, tra'n cynnal cysondeb ac ansawdd, wrth gymhwyso polisïau ac egwyddorion cynllunio.

Dywedodd Dr Richard Gale, trefnydd yr ymchwil:

*'Rwy'n hapus iawn i weithio gyda Cymorth Cynllunio Cymru ac RTPI Cymru ar y materion pwysig hyn. Mae gan y ddau sefydliad yma gyfoeth o arbenigedd mewn helpu cymunedau yn eu rhyngweithredu â chynllunio ac mae gallu dod â'u hagwedd hwy i'r Deialogau hyn yn profi'n fanteisiol iawn i bawb sy'n cymryd rhan, yn cynnwys y grwpiau ffydd.'*

# Gwirfoddolwyr

Gan ein bod yn elusen fechan rydym yn ddibynnol ar ein rhwydwaith o oddeutu 30 gwirfoddolwr. Mae'r gwirfoddolwyr yn cynorthwyo gydag ystod eang o weithgareddau, yn cynnwys darparu cyngor i'r cyhoedd, traddodi hyfforddiant a datblygu canllawiau hygyrch. Ceir mwy o wybodaeth ar wirfoddoli yma: www.planningaidwales.org.uk/volunteer

# Y Bwrdd Rheoli

Am fwy o wybodaeth am y Bwrdd Rheoli ewch i'n tudalen gwefan yma:
www.planningaidwales.org.uk/our-people/management-board/

# Gwybodaeth ariannol

Caiff Cymorth Cynllunio Cymru ei arian craidd gan Lwyodraeth Cymru. Rydym hefyd yn creu cyllid trwy weithgareddau prosiectau a gomisiynir.

Bob blwyddyn mae'r Bwrdd Rheoli yn adolygu ei safle ariannol ac yn gosod cyllid blynyddol yn erbyn ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Trwy'r broses hon amcan cyffredinol y Bwrdd yw cydbwyso'r llyfrau neu, ble bo hynny'n angenrheidiol, chwilio am arian dros ben i adeiladu cronfeydd wrth gefn yr elusen ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol ac i leihau'r posibilrwydd o risg ariannol. Gosodir polisïau rheoli risg a chronfeydd wrth gefn yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr sy'n cydfynd â'r Cyfrifon Terfynol 2018/19:
www.planningaidwales.org.uk/about-us/key-documents-and-policies/

# Manylion cysylltu

Ebost: info@planningaidwales.org.uk

Ffôn: 02920 625009

Cyfeiriad: 174 Heol yr Eglwys Newydd, Y Mynydd Bychan, Caerdydd, CF14 3NB

Planning Aid **Wales**
Cymorth Cynllunio **Cymru**

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**